**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**26 Ionawr 2024**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. |
| AWDUR: | Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael – Cyngor Sir Ceredigion (Corff Atebol Bargen Twf Canolbarth Cymru) |

## 1. Diben yr adroddiad

1.1. Ystyried cyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 i gyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru.

## 2. Penderfyniad(au) a geisir

2.1. Cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2024/25 fel y nodir yn Atodiad 1.

## 3. Cefndir ac ystyriaethau perthnasol

3.1. Ers sefydlu Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn ffurfiol drwy Gytundeb Rhyng-awdurdod ym mis Rhagfyr 2019, mae gweithgarwch datblygu hyd yma ar Fargen Twf Canolbarth Cymru wedi'i ariannu i raddau helaeth drwy gyfraniadau ar y pryd gan y ddau awdurdod lleol a thrwy gyllid grant allanol (gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru). Mae'r Bwrdd yn gweithredu dan y Cytundeb Rhyng-awdurdod (IAA3) rhwng Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion, a Chyngor Sir Ceredigion sy'n gyfrifol am yr elfen Gyllid (swyddogaeth y Corff Atebol).

3.2. Daeth cymorth refeniw gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, nad oedd yn rhan o gyllideb y Cyd-bwyllgor, er mwyn helpu i sefydlu Swyddfa Rheoli'r Portffolio i ben ym mis Gorffennaf 2023. Felly, bydd cyllid a fydd yn galluogi Swyddfa Rheoli'r Portffolio i barhau i weinyddu a chyflawni'r Fargen Twf ar gael drwy ddefnyddio, at ddiben arbennig, beth o gyfraniadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'r Fargen Twf a chyfraniadau'r ddau Gyngor.

3.3. Yn unol â'r Llythyr Dyfarnu Grant ar gyfer y Fargen Twf, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ryddhau bob blwyddyn i gyflawni'r Fargen. Bydd y llog buddsoddi a geir yng nghyswllt y swm hwn a thaliadau grant dilynol yn cael ei roi i'r naill ochr, ar sail net (h.y. ar ôl darparu ar gyfer costau canolog), a bydd yn cael ei ddyrannu i gyfrifon Tyfu Canolbarth Cymru. Mae'r proffil canlynol wedi'i gynnig,

a fydd yn cael ei weinyddu drwy Lywodraeth Cymru (mae'n cynnwys cyfraniad Llywodraeth y DU o 2024 tan 2031):

| 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £4,000,000 | £11,857,143 | £11,857,143 | £11,857,143 | £11,857,143 | £11,857,143 | £11,857,143 | £11,857,143 |

| 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2024/35 | 2035/36 | 2036/37 | 2037/38 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £4,000,000 | £4,000,000 | £3,000,000 | £3,000,000 | £3,000,000 | £3,000,000 | £3,000,000 |

3.4. Bydd rhyddhau cyllid cyfalaf bob blwyddyn yn galluogi'r rhanbarth i ddefnyddio rhan o'r cyllid i ymdrin â'r gost o weinyddu'r Fargen Twf. Tybir bod swm y cyllid a geisir at y diben hwn yn 4%, ac y byddai hynny'n gyson â rhaglenni cyllido eraill y Llywodraeth (e.e. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU) Nid oes yn rhaid i'r arian a neilltuir fod yn ganran sefydlog bob blwyddyn; gall amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall – ar yr amod nad yw'n fwy na 4% yn gyffredinol yn ystod oes y Fargen Twf.

3.5. Bydd yn hollbwysig adolygu a mapio proffiliau cyflawni Rhaglenni/Prosiectau yn erbyn y proffil cyllido hwn wrth i'r Fargen Twf symud i'r cam cyflawni.

3.6. Bydd y cais am y Llythyr Dyfarnu Cyllid/Cynnig Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Fargen Twf yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ceredigion, sef y Corff Atebol a nodwyd yn y Cytundeb Rhyng-awdurdod.

## 4. Cyllideb refeniw ar gyfer 2024/25

4.1. Caiff cyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n dod i gyfanswm o £617,343, ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

4.2. Byddai'r gyllideb arfaethedig yn cynnal y swyddi canlynol:

- Rheolwr Gweithrediadau'r Fargen Twf
- Rheolwr y Rhaglen Ddigidol
- Rheolwr y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo
- Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad
- Swyddog Dadansoddi a Chefnogi Portffolio
- Uwch-swyddog Cymorth Gwasanaeth (rhan-amser)
- Uwch-swyddog Cyfathrebu (rhan-amser)
- Swyddogion Arweiniol Strategol (cyfraniad)
- Swyddog Democrataidd (rhan-amser)

4.3. Bydd gofynion o ran adnoddau'n cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd Adolygiad Sicrwydd y Portffolio, y disgwylir y bydd yn cael ei gyflawni ym mis Mai 2024, yn darparu safbwynt ar ddarparu adnoddau ar gyfer y tîm wrth symud o'r cam Datblygu i'r cam Cyflawni. Gallai'r rolau penodol a nodir uchod newid hefyd.

4.4. Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn tybio y bydd cyllid refeniw'n werth £417,343 sy'n ganran o 43.5% a ddefnyddir at ddiben arbennig, ar sail cyfrifo cyfartaledd a chymryd cyllid Blwyddyn 2 i'r Fargen Twf gan y ddwy lywodraeth yn ystod 2024/25. Mae hynny'n amodol ar y perfformiad blynyddol a chymeradwyaeth y llywodraethau.

4.5. Cynigir bod cyllid gwerth £100,000 yr un yn parhau gan Gyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion.

## 5. Argymhellion

5.1. Bod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2024/2025, sef £617,343 fel yr amlinellir yn Atodiad 1, sy'n cynnwys cyfraniad o £100,000 yr un gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.

## 6. Goblygiadau cyfreithiol

6.1. Cefnogir yr argymhelliad o safbwynt cyfreithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 7. Goblygiadau o ran adnoddau dynol

7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8. Goblygiadau ariannol

8.1. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**9. Atodiadau** – Atodiad 1: Cyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25.